# Cyngor Tref Aberystwyth Town Council

Tŷ'r Offeiriad / The Presbytery
Neuadd Gwenfrewi
Morfa Mawr / Queen's Road
Aberystwyth
SY23 2HS

Council@aberystwyth.gov.uk
www.aberystwyth.gov.uk
01970 624761

## Polisi Dwyieithrwydd

Bydd holl fusnes y Cyngor Tref yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg. Iaith ddiofyn y Cyngor yw Cymraeg. Ni fydd y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg mewn cyfathrebu ysgrifenedig a llafar.

1. Iaith lafar
    a. Gall aelodau siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.
    b. Bydd cyfieithiad ar y cyd (Cymraeg i Saesneg) ar gael i aelodau ac i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r Pwyllgorau Cynllunio, Rheoli Cyffredinol, Cyllid, Staffio a Pholisi.
    c. Bydd galwadau ffôn i'r Cyngor yn cael eu hateb yn ddwyieithog, Cymraeg gyntaf.
    d. Bydd gan y peiriant ateb ffon neges wedi'i chofrestru yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gyda'r fersiwn Gymraeg yn gyntaf.

2. Iaith Ysgrifenedig
    a. Bydd cofnodion y Cyngor Llawn a'r Pwyllgorau yn Gymraeg ac yn Saesneg
    b. Bydd Rheolau Sefydlog ar gael yn y ddwy iaith. Bydd pob dogfen bolisi yn nodi pa iaith y'i hysgrifennwyd yn wreiddiol.
    c. Bydd galwad (Hysbysiad) i gyfarfodydd yn ddwyieithog.
    d. Bydd pob ateb ysgrifenedig i ohebiaeth yn yr un iaith a ddefnyddiwyd gan y gohebydd ac yn cynnwys datganiad yn nodi y gall unrhyw ateb fod yn Gymraeg neu Saesneg.
    e. Bydd pob llythyr a ffurflen safonol a ddefnyddir gan y Cyngor yn ddwyieithog.
    f. Bydd pob agenda yn cael eu darparu'n ddwyieithog.
    g. Bydd ohebiaeth a gychwynnir gan y Cyngor yn cael ei hysgrifennu yn iaith briodol i'r derbynnydd ac yn cynnwys datganiad yn nodi y gall unrhyw ateb fod yn Gymraeg neu Saesneg.
    h. Bydd hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion a gynhelir gan y Cyngor yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg yn unig yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r cyhoeddiad.

Cynhelir hyfforddiant i weithwyr ac aelodau'r Cyngor er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg. Bydd unrhyw hyfforddiant a gynhelir yn cael ei dalu gan y Cyngor, a bydd darpariaeth resymol yn cael ei gwneud i'r staff fynychu hyfforddiant neu astudio yn ystod oriau gwaith.

**Polisi a dderbyniwyd gan y Cyngor Llawn:** 10 Chwefror 2025

**Cafodd ei adolygu a'i ddiweddaru:** 27 Ebrill 2026.

**Adolygiad nesaf:** Ebrill 2026

Ysgrifennwyd y polisi hwn yn wreiddiol yn Saesneg.